CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2024 | 2028

Ein gweledigaeth ar gyfer Heddlu Gwent yw bod yn wasanaeth mwy cynhwysol. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlinellu'r hyn rydym eisiau ei gyflawni a sut byddwn yn gwneud hynny. Rydym wedi rhannu hyn yn dri maes: ein sefydliad, ein cymunedau a'n partneriaethau. Rydym wedi pennu tri nod allweddol ym mhob maes sy'n cael eu dangos yn y graffigyn isod.

SEFYDLIAD	• Cynrychioliadol • Diwylliannol gymwys • Gwrth-wahaniaethu
CYMUNED	• Teimlo'n ddiogel • Ymddiried ynom ni • Teimlo ein bod yn ymgysylltu â nhw
PARTNERIAETHAU	• Cynlluniau plismona a chynlluniau llywodraeth cenedlaethol • Gwella arfer plismona • Gwaith ataliol a chydweithrediad gyda sectorau eraill

Rydym eisiau gwneud hyn drwy sicrhau bod ein dulliau plismona'n garedig, yn gynhwysol ac yn cyd-fynd â'n gwerthoedd. Rydym eisiau sicrhau hefyd ein bod yn cyflawni ein hymrwymiadau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael yr un statws â'r Saesneg.

EIN SEFYDLIAD:

- Rydym eisiau i fwy o bobl o grwpiau amrywiol ymuno â phlismona, a sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg pan maent yn gweithio yma.
- Rydym eisiau sicrhau bod swyddogion a staff yn deall ein gwahanol gymunedau a'r problemau sy'n peri pryder iddynt, i helpu i feithrin ymddiriedaeth a hyder ynom ni ymysg y cyhoedd.
- Rydym eisiau i'n swyddogion a staff herio gwahaniaethu ac ymddygiad gwael yn y gweithle, fel bod pawb yn teimlo'n ddiogel i ddod i'r gwaith. Bydd hyn yn helpu ein cymunedau i ymddiried mwy ynom ni hefyd.

EIN CYMUNEDAU:

- Rydym yn gwybod bod problemau diweddar mewn plismona wedi chwalu ymddiriedaeth, yn arbennig os ydych chi'n fenyw neu'n berson Du. Rydym eisiau dechrau ail adeiladu'r ymddiriedaeth yna.
- Rydym yn gwybod os ydych chi o rai cymunedau, eich bod yn fwy tebygol o gael eich gor-blismona a'ch tan-amddiffyn. Rydym eisiau newid hynny.
- Rydym am i bawb yn ein cymunedau wybod beth rydym yn ei wneud a pham rydym yn ei wneud, i allu cael mynediad i'n gwasanaethau a theimlo'n hyderus i riportio trosedd.

EIN PARTNERIAETHAU:

- Rydym eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn chwarae ein rhan mewn cynlluniau plismona a chynlluniau llywodraeth cenedlaethol i wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gwasanaeth heddlu ac yn ein cymunedau.
- Rydym eisiau gweithio gyda'n cydweithwyr mewn heddluoedd eraill i rannu gwybodaeth ac arfer gorau. Mae hyn yn meithrin dealltwriaeth ar draws plismona, ac yn helpu i arbed arian hefyd.
- Rydym eisiau gweithio gyda'n partneriaid yn y llywodraeth ar lefel genedlaethol a lleol, gwasanaethau brys eraill, busnesau ac elusennau, i ddeall ac ymateb i broblemau sy'n effeithio ar ein cymunedau'n lleol, ac adeiladu cymdeithas well gyda'n gilydd.

GALLWCH DDARLLEN Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL YN LLAWN YMA.

2787_02